BYWGRAFFIAD ARTIST



# *Jâms Coleman*

Piano

*Artist Manager: Sioned Jones*
*sioned.jones@harlequin-agency.co.uk*

Yn tarddu o Ynys Môn, yng Ngogledd Cymru, mae Jâms Coleman yn bianydd sy'n mwynhau bywyd cerddorol cyfoethog ac amrywiol yn perfformio fel unawdydd, cerddor siambr a chyfeilydd lleisiol.

Mae ei uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys perfformio gyda Syr Bryn Terfel mewn darllediad byw ar Radio 3 o Neuadd Dewi Sant Caerdydd, perfformio Carnival of the Animals gan Saint-Saëns' a chaneuon Poulenc a Wolf gyda'r soprano Elizabeth Watts, y bariton Felix Kemp, Cerddorfa Siambr Echor a'r pianydd Martin Sturfält yng Ng?yl Lieder Rhydychen, datganiad gyda'r fezzo-soprano Angharad Lyddon yng Ng?yl Ryngwladol Abergwaun, perfformiad o Schwanengesang gan Schubert gyda'r bas-farton Michael Mofidian yng Nghaeredin a datganiad gyda'r sielydd Laura van der Heijden yng Ng?yl Harrogate.

Mae ei recordiadau diweddar yn cynnwys disg o gerddoriaeth Tsiec a Hwngaraidd gyda'r sielydd Laura van der Heijden ar gyfer Chandos Records a disg o ganeuon gan Loewe gyda'r bariton Nicholas Mogg ar gyfer Champs Hill Records. Bydd ei recordiadau nesaf yn cynnwys disg o gerddoriaeth Debussy, Schumann, Barber, a Dvo?ák gyda Daniel Hamin Go ar gyfer Linn Records.

Fel cyfeilydd lleisiol, mae Jâms yn mwynhau cydweithredu gyda nifer o gantorion ac mae ei ymrwymiadau wedi cynnwys datganiadau gydag artistiaid megis Ailish Tynan, James Gilchrist, Sir John Tomlinson, Robert Murray, Nicholas Mulroy, Andrew Kennedy, James Newby, Lauren Fagan, Michael Mofidian a Nicholas Mogg.

Mae ei ymrwymiadau cerddoriaeth siambr yn cynnwys perfformiadau yn y DU a ledled Ewrop gyda'r offerynwyr Laura van der Heijden, Jamal Aliyev, Steffan Morris, Alice Neary, Timothy Ridout, Rebecca Jones, Luke Hsu, Margaret Faultless, David Adams, Lucy Gould a Peter Moore. Mae Jâms wedi perfformio yn fyw ar BBC Radio 3, BBC World Service, BBC 2 Proms Extra, BBC Radio Cymru ac S4C.

Mae Jâms yn mwynhau perfformio fel unawdydd concerto ac mewn datganiadau. Mae ei berfformiadau concerto yn cynnwys concerti Beethoven Rhif 3, 4, a 5 a choncerti gan Chopin, Brahms a Mozart.

Astudiodd Jâms Gerddoriaeth yng Ngholeg Girton, Caergrawnt, lle y bu hefyd yn Ysgolor Corawl. Yn 2016, cwblhaodd Radd Meistr yn y Royal Academy of Music yn Llundain, ac arhosodd ymlaen yno fel Cymrawd. Yn 2018, bu'n Gyfarwyddwr Artistig i gyfres Cyngherddau yn St Clement Danes Church yng Nghanol Llundain a oedd yn cynnwys dau ddeg pedwar o gyngherddau amser cinio a phump cyngerdd gyda'r nos.